



RHEOLWR MARCHNATA A CHYFATHREBU

£35,000 y flwyddyn – amser llawn (gydag oriau gwaith hyblyg yn bosibl)

Penodiad parhaol

Bydd angen rhywfaint o weithio o Gaerdydd

Mae National Theatre Wales yn cael ei ysgogi gan anelu at gysylltiad. Rydym yn gweld theatr fel arf i ddod â phobl ynghyd i fyfrio, archwilio a chael ein hysbrydoli gan straeon ein cenedl. Rydym am i bawb yng Nghymru weld eu hunain, eu cymunedau, eu profiadau a'u dyfodol yn cael eu dychmygu yn y gwaith yr ydym yn ei wneud. Mae ein staff wrth wraidd cyflawni'r pwrpas hwnnw.

YNGLYN Â'R RÔL:

Rheoli gweithgarwch gweithredol o ddydd i ddydd y Tîm Cynulleidfaoedd a Chyfathrebu, gan gynnwys bod yn rheolwr llinell y Cydlynnydd Cynnwys ac Ymgyrchoedd, bydd y Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd i farchnata gweithgarwch National Theatre Wales (NTW) a siapio lleoliad, proffil a gweithgarwch y Cwmni yn unol â'r brand ehangach, datblygu cynulleidfa a dull cyfathrebu.

Gan gydlynw a chyflawni ymgyrchoedd a gwerthiant trwy greu cynnwys arloesol, proffil allanol a negeseuon ar draws yr holl ddeunyddiau a llwyfannau cyfathrebu, mae'r Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata yn gyfrifol am adeiladu ac amrywio cynulleidfaoedd a chodi proffil NTW drwy sylw yn y cyfryngau.

YN GYFRIFOL I

Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd

YN GYFRIFOL AM

Cydlynnydd Cynnwys ac Ymgyrchoedd

PWY RYDYM NI'N MEDDWL Y GALLAI CHI FOD

Efallai eich bod chi'n rhywun sydd â dawn am feithrin perthnasoedd a chysylltu â phobl. Rydych wedi'ch sbarduno i ddeall anghenion, cymhellion ac ymddygiad eraill a bydd gennych gred gref mewn ehangu mynediad i'r celfyddydau trwy gyfathrebu creadigol ac empathig.

Rydych chi'n chwilfrydig, yn ddyfeisgar ac yn llawn syniadau da. Rydych chi'n caru gwyddoniaeth marchnata llawn cymaint â'i greadigrwydd. Mae'r darlun mawr yn hoelio'ch sylw wrth i chi gadw llygad craff ar y manylion. Os ydych chi'n adnabod eich hun yn unrhyw ran o hyn, yna byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Mae arnom angen gweithlu sy'n cynrychioli sbectrwm cyfan o brofiadau byw. Po fwyaf amrywiol yw'r safbwyntiau sydd gennym sy'n dylanwadu ar yr hyn a wnawn, y cryfaf a'r mwyaf ystyrion fydd ein gwaith. Rydym yn annog ceisiadau gan bob cymuned, ffydd, cefndir a chan unrhyw un sy'n profi hiliaeth neu ragfarn ar sail anabledd. Rydym yn cydnabod y model cymdeithasol o anabledd ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n cyflogeion i gael gwared ar rwystrau i gynhwysiant. Rydym hefyd yn ceisio goresgyn y rhwystrau a wynebir gan ymgeiswyr sydd â chyfrifoldebau gofalu trwy ddiwylliant gweithio hyblyg.

GWEITHIO I NTW

Mae pob aelod o staff yn NTW â rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflawni nodau'r Cwmni. Rydym i gyd yn eiriolwyr ar gyfer gwaith ac ethos y Cwmni ac anogir Aelodau'r Cwmni i fynd i weld gwaith, datblygu rhwydweithiau a chysylltiadau, cyflwyno artistiaid newydd ac aelodau cymuned newydd i NTW a helpu i ddatblygu syniadau ar

gyfer y dyfodol. Mae mynychu cyfarfodydd y Cwmni a chyfarfodydd Syniadau, ac ymgyfraniad gweithredol gyda NTW TEAM (ein rhaglen sy'n cynnwys amrywiaeth eang o gymunedau ym mhob peth a wnawn) yn rhan bwysig a gwerthfawr o waith pawb. Y tu hwnt i dasgu penodol pob swydd ddisgrifiad, mae'r gweithgareddau Cwmni gyfan hyn yn rhan allweddol o gyfraniad a chyflawniad pob aelod o staff.

PRIF GYFRIFOLDEBAU'R RÔL

Marchnata a Chyfathrebu

Datblygu a chyflwyno cyfathrebiadau sy'n cael eu gyrru gan werthoedd sy'n canolbwyntio ar anghenion, diddordebau a safbwyntiau'r gynulleidfa ac yn cyfleu negeseuon craidd a rhai wedi'u targedu.

- Cyflwyno cynlluniau cyfathrebu blynyddol NTW, wedi'u halinio â'n hunaniaeth brand newydd a gwledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd sefydliadol, yn ogystal ag anghenion, diddordebau a safbwyntiau ein cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid eraill
- Gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Cynulleidfoedd a'r Rheolwr Gweithrediadau ac Effaith Gymdeithasol i ddatblygu a chyflwyno cynnwys dylanwadol, nodedig, wedi'i yrru gan werthoedd sy'n cyfleu negeseuon craidd a rhai wedi'u targedu gan gynnwys ar ein heffaith sefydliadol
- Dyfeisio a gweithredu ymgyrchoedd marchnata olynol sy'n gyrru ffigurau ymgysylltiad, yn cynnwys gwerthiannau tocynnau, a datblygu cyfres newydd o systemau a phrosesau i sicrhau dull cadarn o gynllunio a darparu ymgyrchoedd, yn gysylltiedig â'r gweithredu sefydliadol ehangach
- Cefnogi'r adran Gydweithio ym maes cyfathrebu TEAM ac wrth greu cynnig mwy cydlynol sy'n tynnu ar negeseuon craidd NTW ac yn datblygu cynnwys sy'n benodol i weledigaeth TEAM

Brand y Cwmni

Ymgorffori brand newydd NTW – gan gynnwys naws llais ac elfennau gwledol – ar draws cyfathrebiadau'r Cwmni.

- Goruchwyllo cymhwyso brand NTW o ddydd i ddydd, datblygu a sicrhau cysondeb hunaniaeth weledol, tôn y llais, personoliaeth brand, a hyrwyddo gwerthoedd y brand ar draws y sefydliad.
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Cynulleidfoedd i greu cyfathrebu mewnlol cyson ac effeithiol

Cynnwys a Digidol

Creu cynnwys deniadol, pwrpasol yn seiliedig ar fewnwelediad cynulleidfa, strategaeth y Cwmni a rhaglennu artistig, a chynyddu cyrhaeddiad cynulleidfa ar-lein a dyfnder ymgysylltu.

- Arwain ar ysgrifennu copi creadigol ac adrodd straeon - datblygu naratifau a straeon allweddol sy'n cyfleu brand NTW ac yn cyfleu gwerthoedd NTW i gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid
- Arwain yn olygyddol, a defnyddio dulliau segmentu cynulleidfaoedd wrth greu cysyniadau gwledol a negeseua ar gyfer cynrychiadau, ar draws deunyddiau digidol a phrint
- Rheoli cynhyrchu, comisiynu a churadu cynnwys gan ystod o asiantaethau, artistiaid a gweithwyr creadigol ynghyd â goruchwyllo creu mewnlol a lledaenu strategol wedi'i dargedu ar draws sianeli cyfathrebu a llwyfannau digidol NTW.
- Rheoli cynhyrchu holl ddeunyddiau cyfathrebu, marchnata a deunyddiau brand eraill NTW, gan gynnwys gwaith celf, print, hysbysebu, ffilmiau a chyfryngau eraill.
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Cynulleidfoedd i ddatblygu Strategaeth Cynnwys ac Arloesi Digidol NTW ac arwain ar ei gweithredu - gan archwilio ffyrdd o ehangu cyrhaeddiad, mynediad, ymgysylltu ac effaith ddigidol ar draws pob maes o'r busnes
- Goruchwyllo cynnal gwefan a chyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu y cwmni o ddydd i ddydd, gan greu presenoldeb a gwlededd cryfach i NTW ar-lein a thyfu ffigurau ymgysylltu digidol cynyddol

CC a'r Cyfryngau

Cysylltu gwybodaeth rhanddeiliaid â chynllunio cyfathrebu a rheoli perthnasoedd allweddol â rhanddeiliaid ar draws amgylchedd gweithredu NTW.

- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd i ddylunio a chyflawni Cynllun Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau, wedi'i anelu at leoli a phroffilio NTW yn barhaus yn allanol ar draws y sector celfyddydau a diwylliannol a thu hwnt, ac o ran rheoli enw da'r Cwmni
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd ac asiantaethau'r Cyfryngau i lunio a datblygu strategaeth hirdymor o ran y wasg a'r cyfryngau gyda'r nod o ddatblygu rôl ac effaith National Theatre Wales ar fywyd dinesig Cymru.
- Rheoli cysylltiadau â'r wasg a'r cyfryngau o ddydd i ddydd - gan gynnwys datblygu partneriaethau gydag asiantaethau cysylltiadau cyhoeddus a gweithwyr llawrydd eraill.
- Cynnal goruchwyliaeth gref o'r agenda newyddion a nodi tueddiadau a chyfleoedd i roi proffil a pherthnasedd NTW i Gymru fel gwlad a thu hwnt mewn cyd-destun mewn perthynas â newyddion a materion cyfoes lleol a chenedlaethol, yn cynnwys gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd i reoli meysydd sensitif.
- Ysgrifennu, comisiynu a goruchwyllo lledaenu datganiadau i'r wasg, datganiadau a chynnwys arall i sicrhau sylw ar draws cyfryngau print, darlledu, ar-lein a rhyngwladol
- Goruchwyllo creu cynlluniau'r wasg a'r cyfryngau ar gyfer cynyrchiadau a phrosiectau NTW

Ymgyrchoedd

Creu ymgyrchoedd syfrdanol sy'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd presennol a darpar gynulleidfaoedd NTW mewn ffyrdd arloesol, gan gynyddu cyrhaeddiad a hygyrchedd gweithgarwch, yn ogystal â dyfnder yr ymgysylltu.

- Dylunio a rheoli cyflwyniad ystod o ymgyrchoedd ymgysylltu a chyfathrebu â chynulleidfaoedd creadigol ar draws holl weithgareddau NTW, wedi'u cynllunio i adeiladu cynulleidfaoedd ffyddlon, a chynyddu presenoldeb, ymgysylltiad a gwerthiant tocynnau.
- Dylunio a rheoli cyflwyniad ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol / digidol allweddol wedi'u targedu gyda'r nod o gynyddu ac adeiladu cyrhaeddiad ac ymgysylltu ar-lein
- Gweithio'n agos gyda TEAM i nodi, dylunio a chreu cyfleoedd ymgysylltu a datblygu cynulleidfaoedd fel rhan o gynyrchiadau a phrosiectau NTW
- Gweithio gyda lleoliadau ar brisio a thocynnau, gan gynghori a gweithio gyda lleoliadau ar fentrau datblygu cynulleidfaoedd ar sail prisiau

Mewnwelediad CRM A Data Cynulleidfa

Rheoli'r system CRM newydd, gan gynhyrchu mewnwelediad deinamig o ddata cynulleidfa ar gyfer y Cwmni.

- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd i weithredu a rheoli strategaeth datblygu cynulleidfaoedd yn fframio'r Strategaeth Ein Gwaith, gan ddefnyddio gwybodaeth o ddata ac ymgynghori â chynulleidfaoedd i lunio cynlluniau a dulliau gweithredu a mywafu cyrhaeddiad, ystod ac amrywiaeth cynulleidfaoedd NTW
- Rheoli'r system CRM sefydliadol, sef, Spektrix, gan oruchwyllo rhedeg Swyddfa Docynnau NTW, a gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd i sicrhau bod yr holl weithgarwch marchnata a chyfathrebu yn cydymffurfio â GDPR
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd i gryfhau perthnasoedd â lleoliadau yng Nghymru i weithio tuag at drefniadau rhannu data cynulleidfa mwy cyson a chynhwysfawr sy'n cydymffurfio â GDPR
- Arwain ar ddylunio a rheoli data ac ymchwil cynulleidfaoedd, gan sicrhau bod gwybodaeth am gynulleidfaoedd yn sail i ddatblygu a darparu ymgyrchoedd
- Monitro a gwerthuso cyrhaeddiad ac effaith ymgyrchoedd yn y cyfryngau a rhai sy'n canolbwyntio ar gynulleidfaoedd.
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd a'r Rheolwr Gweithrediadau ac Effaith Gymdeithasol i ddatblygu a gweithredu systemau effeithiol ar gyfer cipio, olrhain a dadansoddi data ac adrodd ar gynnydd sefydliadol, dysgu a strategaeth i ddylanwadu ar benderfyniadau gan y Tîm Arweinyddiaeth Strategol, y Bwrdd, a rhanddeiliaid ehangach

MANYLEB Y PERSON

Mae NTW bob amser yn agored i ystyried buddsoddi mewn rhywun a all ddangos potensial datblygu i ni yn y rôl hon, er efallai na fyddant yn gallu dangos yr holl feini prawf hanfodol a restrir isod.

	Hanfodol	Dymunol
Profiad	<ul style="list-style-type: none"> ● Profiad fel gweithiwr cyfathrebu a marchnata proffesiynol gyda hanes o gyflawni ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu arloesol a gyflawnwyd yn llwyddiannus a ragorodd ar dargedau gwerthu ac ymgysylltu ● Profiad amlwg o weithredu brand gweithredol ● Profiad gyda systemau CRM / rheoli data / prosesau segmentu ● Profiad o ddatblygu cysyniadau creadigol, comisiynu a/neu gynhyrchu cynnwys ● Profiad o gynllunio'r wasg a'r cyfryngau, ysgrifennu datganiadau i'r wasg, cyfathrebiadau corfforaethol allweddol, yn ogystal â sicrhau presenoldeb y wasg mewn digwyddiadau allweddol ● Hanes o ddatblygu cynnwys ar-lein trwy wefannau, cyfryngau cymdeithasol, marchnata digidol, a gweithgaredd SEO ● Profiad o reoli cyllidebau 	<ul style="list-style-type: none"> ● Profiad o ddatblygu a gweithredu strategaethau Datblygu Cynulleidfaoedd ● Profiad o storio, rheoli a golygu cynnwys ● Rhwydwaith cyfathrebu rhagorol gan gynnwys cysylltiadau cryf gyda'r cyfryngau yn y celfyddydau a diwylliant - traws-sector / a gwleidyddol, yn ogystal â lefelau llawr gwlad ● Gwybodaeth gyfoes o GDPR (diogelu data), a'i oblygiadau ar gyfer ymgyrchoedd cyfathrebu a marchnata ● Profiad o weithio gyda lleoliadau ar dargedau prisio a mentrau tocynnau effeithiol ● Profiad o gysylltu ag asiantaethau hysbysebu a chomisiynu gwaith llawrydd ● Profiad amlwg o reoli llinell gan gynnwys y gallu i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus aelodau tîm yn effeithiol ● Profiad o gynnal ymchwil i'r gynulleidfa a gweithgareddau ymgynghori ● Profiad o gychwyn ymchwil a defnyddio data i lywio ymgyrchoedd, a gwerthuso gweithgarwch yn feiriadol yn erbyn blaenoriaethau strategol i fwyafu eu heffeithiolrwydd gan gynnwys bod yn gyfarwydd â dadansoddeg ac offer digidol
Gwybodaeth a Sgiliau	<ul style="list-style-type: none"> ● Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol rhagorol, gyda lefel uchel o ddeallusrwydd emosiynol 	<ul style="list-style-type: none"> ● Gallu cyfathrebu yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig ● Gwybodaeth am gyd-destun y celfyddydau, diwylliant a'r cyfryngau yng Nghymru

	<ul style="list-style-type: none"> ● Sgiliau ysgrifennu copi creadigol / adrodd straeon ac arloesi ymgyrchu rhagorol ● Y gallu i adeiladu a chynnal perthnasoedd effeithiol â chydweithwyr yn fewnol ac â rhanddeiliaid allanol ● Sgiliau rheoli da neu botensial yn y maes, gan gynnwys y gallu i gyfleu syniadau mewn ffyrdd sy'n cymell, ac yn meithrin ymddiriedaeth a brwdfrydedd ● Sgiliau ymchwil a dadansoddi cryf neu botensial yn y maes - y gallu i ddehongli dadansoddeg y we a chyfryngau cymdeithasol a data marchnata eraill i gynhyrchu cynnwys creadigol a gafaelgar ● Y gallu i roi strategaethau a chynlluniau ar waith yn ganlyniadau ystyrlon 	<ul style="list-style-type: none"> ● Sgiliau mewn rhaglenni Adobe a meddalwedd golygu fideo / sain ● Gwybodaeth a dealltwriaeth o effaith gymdeithasol y celfyddydau a diwylliant a sut i gyfathrebu hyn
Rhinweddau Personol	<ul style="list-style-type: none"> ● Sgiliau rhyngpersonol ardderchog a'r gallu i ddatblygu perthynas waith gref a llwyddiannus ar bob lefel ● Gwybodaeth am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac ymrwymiad i gynyddu hynny ● Defnyddio ymagwedd gadarnhaol, ragweithiol, gynhyrchiol sy'n canolbwyntio ar atebion, ac yn ymgorffori hyn o fewn agweddau tîm ● Yn ffynnu mewn amgylchedd sydd weithiau'n un pwysau uchel, gan ymdrin ag amrywiol flaenoriaethau ac amserlenni sy'n newid 	<ul style="list-style-type: none"> ● Angerdd amlwg dros theatr, creadigrwydd a'r celfyddydau fel arf ar gyfer newid cymdeithasol ● Dealltwriaeth o sector y celfyddydau yng Nghymru a ledled y DU
Cymwysterau	<ul style="list-style-type: none"> ● Gradd a/neu gymwysterau proffesiynol mewn cyfathrebu a marchnata NEU brofiad perthnasol 	

TELERAU AC AMODAU

Cyflog: £35,000 y flwyddyn

Oriau: 35 awr yr wythnos (yn ogystal ag egwyl orfodol am un awr, gan gymryd yr wythnos waith i 40 awr). Byddwn yn ystyried trefniadau gweithio hyblyg ar gyfer yr ymgeisydd iawn.

Gwyliau: 25 diwrnod y flwyddyn (ac eithrio Gwyliau Banc statudol).

Cyfnod: Ar ôl cwblhau cyfnod prawf o 3 mis, bydd hon yn swydd barhaol

Cyfnod rhybudd: Yn dilyn cwblhau cyfnod prawf o 3 mis, y cyfnod rhybudd yw tri mis.

Pensiwn: Rydym yn cynnig cynllun pensiwn rhanddeiliaid gyda Royal London ar gyfer ein holl gyflogeion. Mae cyfraniadau misol yn cael eu tynnu o'ch cyflog; gallwch gyfrannu o leiaf 3% – mwy os dewiswch – ac rydym yn cyfrannu 5%. Ar ôl i chi gwblhau eich cyfnod prawf a'ch bod yn gwybod eich bod am aros, byddwch yn ymuno â'r cynllun yn awtomatig, a byddwn yn ôl-ddyddio cyfraniadau'r Cwmni i'ch dyddiad cychwyn.

SUT I WNEUD CAIS

Gallwch naill ai ysgrifennu llythyr eglurhaol heb fod yn fwy na 2 dudalen NEU ffilmio fideo ohonoch chi'ch hun yn para dim mwy na 5 munud. Nid ydym yn ffafrio un dull dros y llall, a byddwn yn hapus i dderbyn y naill fformat neu'r llall, felly mae croeso i chi ddewis pa un bynnag sydd fwyaf addas i chi. Yn eich llythyr eglurhaol neu fideo, dywedwch wrthym amdanoch chi, eich profiadau, eich sgiliau a'ch nodweddion sy'n berthnasol i'r swydd, a dywedwch ychydig wrthym am yr hyn yr ydych yn dyheu amdano mewn bywyd. Beth sy'n bwysig i chi? Beth ydych chi'n credu ynddo? Ble hoffech chi fod ymhen 3 blynedd? Pa newidiadau hoffech chi eu gwneud i'n cymdeithas? Beth ydych chi'n hoffi ei wneud? Anfonwch eich llythyr eglurhaol neu fideo atom gyda ffurflen gais wedi'i llenwi a'ch CV (dim mwy na 2 dudalen os gwelwch yn dda, ynghyd â geirdaon) i: work@nationaltheatrewales.org erbyn **5pm ar ddydd LLun 22 Awst 2022**.

Os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer, byddwn yn eich gwahodd i gyfweiliad dros Zoom, sy'n debygol o ddigwydd yn ystod yr wythnos yn dechrau **29 Awst 2022**. Mae'r rhain yn sgysiau cyfeillgar, anffurfiol i raddau helaeth am 45 munud gyda thua phedwar o bobl, gan gynnwys Cyfarwyddwr Gweithredol / Dirprwy Brif Weithredwr NTW ac aelod o banel TEAM. Byddwn yn anfon amlinelliad bras atoch o'r cwestiynau y byddwn yn eu gofyn i chi, a bywgraffiadau byr o'r uchod ymlaen llaw.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl neu'r broses, mae croeso i chi gysylltu ar work@nationaltheatrewales.org